**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 5ed Rhagfyr 2013 yn GreenThumb, Parc Busnes Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P R Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| D A MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D J Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M A Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P Claydon a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J M Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Wright | Cyngor Gwynedd |

Hefyd, C Everett (Clerc) a R Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol).

1 DATGAN BUDDIANT

1.1 Dim.

2 Y DIWEDDARAF AM Y LLIFOGYDD

2.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân ddiweddariad i'r Aelodau am sefyllfa'r llifogydd y diwrnod hwnnw ar hyd arfordir y gogledd. Roedd y Gwasanaeth yn cydweithio â'r RNLI, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y timau achub mynydd a phartneriaid eraill. Y PSTC Fairhead oedd yn cydlynu'r ymateb ar lefel Rheolaeth Aur.

2.2 Roedd y Cyng. McGuill yn dymuno gweld diolch yr Aelodau yn cael ei fynegi i bawb a oedd yn darparu'r ymateb brys.

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. M Reece y cyfarfod oherwydd pryderon ynglŷn â llifogydd ym Magillt.

Cyn symud ymlaen at yr adroddiad ar yr opsiynau o ran y gyllideb, atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd am Wasanaeth Carolau'r Gwasanaethau Brys a oedd i'w gynnal nos Lun, 9eg Rhagfyr am 7.30 yr hwyr yng Nghadeirlan Llanelwy.

Hefyd, diolchodd y Cadeirydd i GreenThumb am adael i'r Awdurdod ddefnyddio ei gyfleusterau ar fyr rybudd.

3 MATERION BRYS

3.1 Cytunodd yr Aelodau i dderbyn diweddariad ynglŷn â'r anghydfod diwydiannol yn ystod rhan II o'r cyfarfod.

4 YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2014-15

4.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Aelodau ei bod yn anarferol i gynnal cyfarfod arbennig ym mis Rhagfyr i drafod y gyllideb. Oherwydd y setliad ariannol llywodraeth leol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, ystyrid mai doeth fyddai cynnal cyfarfod ychwanegol i adolygu penderfyniadau blaenorol yr Awdurdod ac argymhellion y Panel Gweithredol ynglŷn â'r gyllideb cyn i'r Aelodau gymeradwyo cyllideb ddrafft 2014-15 yn y cyfarfod ar 16eg Rhagfyr. Roedd yr Aelodau eisoes wedi cael yr adroddiad ar yr opsiynau o ran y gyllideb ac roedd asesiad risg cydraddoldeb o'r opsiynau wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod.

Cyrhaeddodd y Cyng. J R Skelland ar yr adeg hon.

4.2 Aethpwyd â'r Aelodau drwy'r adroddiad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, ac fe'u hatgoffwyd o'r penderfyniadau a wnaed eisoes ynglŷn â'r amcanion gwella drafft a'r ffordd ymlaen ar gyfer cyllideb 2014-15. Cafodd yr Aelodau wybod gan y DBST na fyddai digon o amser i ymgynghori ar benderfyniad rhwng nawr ac Ebrill 2014 petaent, yng ngoleuni'r setliad ariannol diweddar, yn dymuno newid eu penderfyniad blaenorol a chael lleihad yn y gyllideb.

4.3 Esboniodd y Trysorydd nad oedd unrhyw elfen o amddiffyniad i lywodraeth leol yn y setliad ariannol, yn wahanol i'r tair blynedd flaenorol, ac roedd hyn yn beth eithaf annisgwyl. Unwaith eto, atgoffodd yr Aelodau nad oeddent ar yr Awdurdod Tân ac Achub i gynrychioli eu hetholaethau eu hunain; fodd bynnag roedd angen iddynt gadw'r setliad llywodraeth leol mewn cof.

4.4 Yn 2010, roedd yr Aelodau wedi penderfynu gwneud gostyngiadau i'r gyllideb, a hynny ar ffurf symiau tebyg dros gyfnod o dair blynedd yn hytrach nag un toriad mawr yn y flwyddyn gyntaf. Esboniodd y Trysorydd y canlynol: gyda llinell wastad neu ostyngiad bychan ym mlwyddyn 1, mae'r effaith yn symud i'r ail flwyddyn ar unwaith, ac mae'r adroddiad yn trafod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi o ddilyn yr un dull am y tair blynedd nesaf. Dyma a argymhellwyd gan aelodau'r Panel Gweithredol ar 28 Hydref 2013, ac esboniodd y Trysorydd mai dyma oedd ef yn ei ffafrio yn hytrach na defnyddio'r arian sydd mewn cronfeydd wrth gefn i wneud iawn am y gyllideb am un flwyddyn. Byddai hynny'n achos llawer mwy o broblemau yn 2015-16. Hefyd, wrth fabwysiadu'r dull hwn, byddai mwy o amser i gynllunio ac ystyried yr effeithiau a'r risgiau ar gyfer 2015-16 ac ymlaen. Fodd bynnag, roedd y Trysorydd yn pwysleisio paragraff 14 o'r adroddiad, sef mai argymhelliad am flwyddyn yn unig oedd hwn ac nad oedd yn addas ar gyfer y tymor hir heb fynd ati i ddiwygio'r gwasanaeth yn sylweddol eto neu wneud rhyw fath o amddiffyniad i'r gyllideb.

4.5 Tynnodd y Dirprwy Glerc sylw'r aelodau hefyd at baragraff 14 a'r angen i Weithgor y Cynllun Gwella ystyried ac asesu'n fanwl ofynion ariannol yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol. Dywedodd fod angen i'r Awdurdod Tân ac Achub ymgynghori â'r awdurdodau cyfansoddol ynglŷn â gofynion ac anghenion gweithredol y dyfodol, a beth fyddai ystyr hynny o ran cyllid.

4.6 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau bod y PST, y DBST a'r Cadeirydd wedi ymweld â'r awdurdodau cyfansoddol i roi briffiad ar sefyllfa'r ATA fel rhan o'r broses ymgynghori ar yr amcanion gwella drafft. Rhoddodd y PST sicrwydd i'r Aelodau fod cynghorwyr yn yr holl awdurdodau cyfansoddol i'w gweld yn hynod gefnogol i sefyllfa'r Awdurdod. Dywedodd y Cyng. Dunn mai ef oedd wedi cadeirio'r briffiad i Gyngor Sir y Fflint a'i fod yn ategu sylwadau'r PST ynglŷn â'r gefnogaeth a ddangoswyd gan y cynghorwyr.

4.7 I ateb cwestiwn ynglŷn â chymharu sefyllfa'r gyfredol gydag ATAau yn Lloegr, esboniwyd bod honno'n sefyllfa gwbl wahanol gan fod ganddynt hwy ddylanwad dros y dreth gyngor a bod ganddynt system gyllido wahanol i'r ATAau yng Nghymru. Rhybuddiwyd yr Aelodau gan y PST am effaith bosibl peidio â darparu cyllid digonol ar gyfer hyfforddiant ac offer.

4.8 Roedd y Cyng. McGuill yn cefnogi'r argymhellion, ac yn teimlo bod angen i'r Awdurdod fod yn ddarbodus.

4.9 Roedd y Cyng. Lewis yn cefnogi awgrym y Dirprwy Glerc y dylai'r Awdurdod, dros y misoedd nesaf, edrych yn wyddonol ar y Gwasanaeth. Byddai hyn yn rhoi rhagor o rym i ba argymhellion bynnag a wneir i'r awdurdodau lleol perthnasol o ganlyniad i'r darn hwnnw o waith. Roedd y PST yn cefnogi'r awgrym ac yn dweud ei bod, hyd yn oed heb bwysau ar y gyllideb, yn gwneud synnwyr i fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r gwasanaeth a'r cydbwysedd rhwng gwaith atal ac ymateb. **Cytunodd yr Aelodau i gefnogi'r awgrym y dylid gwneud darn o waith i asesu'r holl wasanaethau a ddarperir gan GTAGC.**

4.10 Cyn symud ymlaen at yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad, cafwyd saib yn y cyfarfod er mwyn i'r Aelodau ddarllen yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a oedd wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod. Ar ôl ailymgynnull, aeth y Cadeirydd ymlaen at yr argymhellion a oedd yn yr adroddiad. Yna:

4.11 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y broses o osod y gyllideb;**

**(ii) nodi'r risgiau sy'n ymwneud â gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15;**

**(iii) cadarnhau eu bod yn dymuno i gyllideb 2014-15 gael ei chreu ar sail darparu'r lefel gyfredol o wasanaethau;**

**(iv) derbyn argymhellion y Panel Gweithredol y dylai'r gyllideb gael ei rhewi am bedwaredd flwyddyn, ac y dylid symud £1 miliwn i gronfa gyffredinol y gellid ei defnyddio i ymorol am unrhyw orwariant a allai ddigwydd oherwydd cynnydd mewn gweithgarwch.**

RHAN II

5 YR ANGHYDFOD DIWYDIANNOL

5.1 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau am y datblygiadau diweddar mewn perthynas â'r anghydfod diwydiannol, a dywedodd y byddai adroddiad llawn ar weithgarwch a'r camau hyd yn hyn yn cael ei ddarparu i'r Aelodau yn y cyfarfod ar 16eg Rhagfyr.

5.2 Roedd Undeb yr FBU wedi cynnal pleidlais bellach i ofyn i'w aelodau gytuno ar fandad i weithredu ac eithrio mynd ar streic (*action short of strike (ASOS)*). Caewyd y bleidlais ar 4ydd Rhagfyr, roedd aelodau'r Undeb wedi pleidleisio o blaid y cynnig ac mae gan yr Undeb fandad erbyn hyn i gynnal ASOS. Am y tro cyntaf ers i'r anghydfod gychwyn, roedd y bleidlais hon yn cynnwys staff yr Ystafell Reoli a GTAau yr Alban.

5.3 Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi dod i law eto ynglŷn â'r math o weithredu/anweithredu y bydd yr Undeb yn ei wneud. Fel y disgwylid, bu'r swyddogion yn gweithio ac yn cynllunio ar gyfer hynny, a chafwyd cyngor cyfreithiol ynglŷn â rhangyflawni contract. Yn ôl y cyngor cyfreithiol, yr eiliad y bydd unigolyn yn gwrthod cyflawni hyd yn oed 1% o'i gontract, nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr Awdurdod i'w dalu am y 99% arall o'r contract.

5.4 Hyd yn hyn, rhwng yr Undeb a'r Llywodraeth y bu'r anghydfod. Fodd bynnag, mae'r ASOS yn dod â'r mater yn fwy lleol. Gallai hyn fod yn sefyllfa dymor hir, a chyngor y PST i'r Aelodau oedd y dylai'r Awdurdod barhau i wrthod arddel yr ASOS a'r rhangyflawni.

5.5 Gofynnwyd i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod i'r PST ar y cyd â'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, y Trysorydd a'r Clerc i ymdrin yn y modd mwyaf priodol â'r sefyllfa hon sy'n newid mor sydyn.

5.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais am awdurdod dirprwyedig.**